| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **HYDREF 10 2013** |
| **TEITL:** | **YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012-13** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYFLWYNO'R YMATEB A'N SYLWADAU I'R PWYLLGOR** |

## 1. ADRODDIAD MONITRO IAITH

1.1. Ymhellach i'n Hadroddiad Monitro Iaith flynyddol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iaith ym mis Mehefin, atodir sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar yr adroddiad.

1.2. Roedd gofyn i ni ymateb i rai o'r ceisiadau yma am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith, ac mi anfonwyd ein hymateb o fewn yr amserlen yma

## 2. YMATEB I SYLWADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG

2.1. Gweler fod y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar, a bydd rhai ymholiadau'n derbyn sylw penodol fel rhan o'n cyfarfod adborth. I bwrpas yr Adroddiad yma, ac er gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Iaith, cyflwynir ymateb ysgrifenedig i bob un o'r materion a godwyd gan y Comisiynydd.

## 3. ARGYMHELLION

3.1. Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg a'n hymateb i'r cais am wybodaeth.